# 11. YR ARCHOFFEIRIAD A'R SANHEDRIN

**Darllen:** Marc 14: 53-65

Yn ôl Ioan 18: 14, 19-24, cymerwyd Iesu yn gyntaf i dŷ Annas, y cyn-archoffeiriad. Yn ôl yr hanesydd Iddewig, Joseffws, bu Annas yn archoffeiriad rhwng 7 O.C. ac 14 O.C. cyn iddo gael ei daflu allan o'r swydd gan y Rhufeiniaid, gweithred anarferol iawn iddynt hwy. Dilynwyd ef gan ei feibion, pump ohonynt yn eu tro, a diarddelwyd pob un ohonynt ymhen amser byr. Dywedodd yr Ymerawdwr Tiberiws iddynt ddod a mynd '*fel clêr ar ddolur'*. Erbyn hyn, mab-yng-nghyfraith Annas oedd yn y swydd, sef Caiaffas. Sylwa'r Esgob Westcott ar y ffaith bod '*y cofnod moel hwn yn datgelu cynllwyniwr medrus sy'n gweithredu fel y penteulu trwy aelodau o'i deulu ei hun.*' Annas oedd y grym tu ôl i'r orsedd. Mae'n bur debyg hefyd mai Annas oedd prif gyfranddaliwr marchnadoedd y Deml, 'Pebyll Annas'. Ceir sôn am Annas a'i deulu yn llyfr y Talmwd, awdurdod yr Iddewon ar eu crefydd a'u bywyd: '*Gwae i dŷ Annas! Gwae i'w hisian sarff! Archoffeiriaid ydynt; eu meibion yn geidwaid y trysorlys; eu meibion-yng-nghyfraith yn warchodwyr y Deml; a'u gweision yn curo'r bobl â ffyn.'* Annas oedd i weld Iesu yn gyntaf; efallai i chwerthin ar ben ei elyn; efallai i sicrhau ei le ei hun yn yr hyn a fyddai'n digwydd o'r dechrau; neu efallai i baratoi'r ffordd i drafodaethau'r llys.

Daeth croesholi Annas i ben a chymerwyd y carcharor i dw'r Archoffeiriad Caiffas wrth droed Mynydd Seion. (Darganfuwyd olion y tŷ ar safle eglwys Pedr yn Gallicantu/Sant Pedr Caniad y Ceiliog, gyda grisiau sy'n rhan o'r ffordd o Fynydd Seion i ardd Gethsemane. Hon yw'r ffordd y cerddodd Iesu a'r lleill arni wrth iddynt fynd i ardd Gethsemane. Hon yw'r ffordd y daethpwyd â'r Carcharor ar ei hyd i wynebu'r llys. O dan yr eglwys y mae yna iard, ac wrth ei ochr, carchar â physt fflangellu; ac o dan y cyfan, cell fechan â'r unig ffordd i fynd ati ydy trwy dwll yn y nenfwd).

Saith deg ac un o aelodau oedd gan y Sanhedrin, yn cynnwys offeiriaid (Sadwceaid), henuriaid (perchnogion tir/ Sadwceaid), ac ysgrifenyddion, sef athrawon y Gyfraith (Phariseaid). Roedd tri ar hugain yn ddigon i sicrhau cworwm a dyna'r cyfan oedd Caiffas yn ei ddymuno er mwyn cadw'r aelodau 'meddal' a oedd yn cydymdeimlo â'r Galilead allan.

Nid oedd y dydd wedi gwawrio pan agorwyd y llys gan Caiaffas, y llywydd. Torrwyd y Ddeddf wrth fynd â Iesu at Annas. Cafodd ei thorri eto wrth i'r llys eistedd yn ystod y nos. Cyfyngwyd oriau prawf i olau dydd gan wahardd eisteddiadau o lysoedd yn gyfan gwbl dros gyfnod y Pasg. Y tebygolrwydd yw mai eisteddiad answyddogol o'r llys oedd hwn, yn rhoi cyfle i'r aelodau groesholi carcharor cyn yr eisteddiad swyddogol boreol yn y Deml. Gan fod awr dechrau Guyl y Pasg yn agosáu, roedd amser yn brin. Caiaffas, yr archoffeiriad, oedd llywydd y llys. Rhaid bod ganddo gymeriad cryf a gallu gwleidyddol i ddal y swydd am gyfnod cymharol hir. Wrth iddo sôn am Iesu, roedd y prif farnwr eisoes wedi dweud wrth aelodau o'r Sanhedrin, '*Nid ydych yn sylweddoli mai mantais i chwi fydd i un dyn farw dros y bobl, yn hytrach na bod y genedl gyfan yn cael ei difodi*' (Ioan 11: 50). Pwy oedd yr Iesu hwn ond aflonyddwr ar heddwch y wlad - cynhyrfwr, terfysgwr?
Gyda'r wawr symudwyd yr achos i'r Deml ar gyfer eisteddiad swyddogol y Sanhedrin yn Neuadd y Cerrig Nadd. Ar furiau'r neuadd, uwchben y llys, ysgrifennwyd mewn llythrennau aur: '*Gwrando, O Israel: Y mae'r Arglwydd ein Duw yn un Arglwydd'* (Deut. 6: 4), cyffes fawr ffydd pobl Israel, yn cael ei hadrodd mor aml ag yr adroddir Gweddi'r Arglwydd gan Gristnogion. Pwrpas y geiriau oedd rhybuddio ac atgoffa pawb o'u cyfrifoldeb enfawr. Eisteddodd aelodau'r llys – dynion urddasol, parchus, pwysig - mewn hanner cylch yn wynebu'r carcharor. "*Y rhai hyn sydd i eistedd mewn barn arno, cynrychiolwyr swyddogol yr Eglwys, etholedigion Duw ar y ddaear. Llefarant ar ran y rhai a alwyd allan o'r byd i'w ddisgwyl Ef, a'i groesawu fel eu Brenin. Uwch eu pennau, ar welydd y neuadd lle ddaethant ynghyd, Eistedda'r rhai hyn - dynion urddasol, parchus, di-fai - mewn hanner-gylch yn ôl yr arfer, er mwyn i farnwyr a'r carcharor edrych i wyneb ei gilydd wrth i'r ddedfryd gael ei chyhoeddi."*[12] Safodd y carcharor rhwng y ddwy ganhwyllbren fawr. Cyflwynwyd y prif gyhuddiad yn ei erbyn – cabledd. Gwrandawyd ar nifer o dystion â'u tystiolaethau anghyson. Yna, daeth deuddyn a thystio i'r carcharor ddweud, '*Mi fwriaf i lawr y deml hon o waith llaw, ac ymhen tridiau mi adeiladaf un arall heb fod o waith llaw. Ond hyd yn oed felly nid oedd eu tystiolaeth yn gyson*.' Safodd Iesu yno'n fud gydol yr amser.

Cododd yr archoffeiriad ar ei draed a gofyn cwestiwn cyhuddol gyda'r bwriad o gael yr amddiffynydd i gondemnio ei hun, gweithred arall a oedd yn erbyn y Ddeddf: "*Ai ti yw'r Meseia, Mab y Bendigedig?*"

Daeth yr ateb fel saeth, '*Myfi yw, ac fe welwch Fab y Dyn yn eistedd ar ddeheulaw'r Gallu ac yn dyfod gyda chymylau'r nef.*' Dyfyniad o Lyfr Daniel 7:13 oedd ganddo, wrth sôn am Fab y Dyn yn cael ei orseddu. Ni ddywedodd Iesu mai ef oedd Mab y Dyn ond yr oedd ei honiad yn gwbl eglur i bawb.

'*Wedi ei ddal*!' gwaeddodd Caiaffas, gan rwygo ei ddillad. '*Cabledd*!' Arswyd ffug a achosodd iddo rwygo ei wisg ond llawenydd a reolodd ei galon, os nad ei wyneb. Yn wir, ffug oedd y cyfan. Hynny yw, ar wahân i ddedfryd unfrydol y llys i'w gondemnio i farwolaeth. Ar unwaith, anghofiodd pawb am urddas y llys. Dechreuodd y barnwyr, yr heddlu a gweision y llys ymosod ar y carcharor yn gorfforol ac yn seicolegol, gan boeri arno a rhoi gorchudd ar ei wyneb a'i gernodio a'i ddyrnodio a gweiddi arno i broffwydo.

Ffars fyddai'r cyfan oni bai am ddifrifoldeb yr achlysur a Mab y Dyn wedi ei gondemnio mewn 'prawf-sioe', mor debyg i lawer o brofion dan gyfundrefn Natsiaidd a Sofietaidd, ond y tro hwn heb gyhoeddusrwydd. Mae'n gwbl amlwg i Iesu gael ei gondemnio cyn iddo sefyll ei brawf, yn wir, cyn iddo gael ei ddal. Cafodd y cam-dystion eu llwgrwobrwyo gan y barnwyr. Cynhaliwyd prawf gan farnwyr a oedd yn barod i dorri llawer o reolau'r Ddeddf er mwyn ei gosbi. Gweithred gwbl anghyfreithlon oedd i'r Sanhedrin gynnal treial a hwnnw heb fod yn ystod oriau'r dydd ac yn Neuadd y Cerrig Nadd yn y Deml. Peth anghyfreithlon oedd dechrau treial heb sicrwydd am euogrwydd yr amddiffynnydd. Ni phenodwyd neb i amddiffyn yr amddiffynnydd. Roedd penderfyniad y llys i'w gondemnio yn syth wedi ei gael yn euog yn anghyfreithlon, gan fod y Ddeddf yn gorchymyn caniatáu i noson fynd heibio ar I cael carcharor yn euog cyn ei ddedfrydu.

Ar hyd y prawf hwn gweithredodd y Sanhedrin fel erlynyddion gan anghofio eu cyfrifoldeb o fod yn fainc o farnwyr. Defnyddiwyd y Ddeddf i dorri'r Ddeddf. Taflodd y llys pob cyfrifoldeb am gyfiawnder ymaith. Dilëwyd hawliau'r werin gan warchodwyr yr hawliau hynny. Safodd y carcharor unigryw o flaen awdurdodau dynol ac wrth iddo wneud hynny, fe gynrychiolodd pawb arall a ddioddefodd o'r fath gamdriniaeth. Ond, i goroni'r cyfan, yn nhw'r Arglwydd, gwelwyd cynrychiolwyr Duw yn gwrthod derbyn Etholedig Duw. Safodd ein Barnwr o flaen ei farnwyr.

Ond beth am y carcharor ei hun? Yr hyn a amlygodd ei hun yma oedd ei ddistawrwydd. Rhoddodd ei hun yn nwylo'r Tad yng Ngethsemane ac mewn ufudd-dod, safodd ger eu bron yn ufudd i

ewyllys Duw, yn ddewr, yn dangnefeddus. Gwaeddodd yr archoffeiriad: “*Clywsom ein hunain y geiriau o’i enau ef” - rhoddodd iddynt reswm am ei wrthod a’i gondemnio, ond i’r rhai sy’n credu, sylfaen ffydd a gobaith yng Nghrist sydd yn ei eiriau. Yr ydym yn “gwbl sicr na all angau nac einioes… ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd*” (Rhuf. 8: 38-39). “*Pa raid i ni wrth dystion bellach? Oherwydd clywsom ein hunain y geiriau o’i enau ef.*” Y cam nesaf oedd mynd â Iesu at Pilat, rhaglaw Rhufain, i’w berswadio neu ei orfodi i wneud eu hewyllys a chondemnio’r Saer o Nasareth i farwolaeth.

**Gweddi:**
*O Arglwydd Iesu Grist, dy gondemniad anghyfiawn a gondemniwn yn awr.*
*Gwared ni rhag bod yn faleisus ac angharedig yn ein hymwneud ag eraill,*
*rhag ofn i ni wneud i ti yr hyn a wnawn i eraill*
*gan dy groeshoelio drachefn, ein Gwaredwr, ein Brawd a’n Harglwydd, byth bythoedd. Amen.*
*(Yn seiliedig ar E. Milner-White)*

**Simon Pedr**

**Darllen:** Marc 14: 66-72

Yn y cyfamser, daeth Simon Pedr, un o’r Deuddeg, i dŷ’r archoffeiriad, gan fynd i mewn i’r cyntedd lle’r oedd heddlu’r Deml yn aros gyda gweision yr archoffeiriad. Dangosodd Pedr y dewrder oedd yn nodweddiadol ohono, yn ogystal â’r hunanhyder a wnaeth iddo frolio am ei ffyddlondeb ar y ffordd i ardd Gethsemane pan gyhoeddodd ei barodrwydd i farw gydag Iesu. Ond llwyddodd morwyn â thafod miniog ei ddadchwythu. Gyda llw, fe dyngodd nad oedd yn adnabod y Galilead. Wrth i’r ceiliog ganu, daeth Iesu allan o’r tŷ yn ei gadwyni gydag olion y cam-drin yn amlwg arno. “*Troes yr Arglwydd ac edrych ar Pedr, a chofiodd ef air yr Arglwydd wrtho, ‘Cyn i’r ceiliog ganu heddiw, fe’m gwedi i deirgwaith.’ Aeth allan ac wylo’n chwerw”* (Luc 22: 61-62). Edrychiad o farn (datguddio’r gwir sefyllfa) ac o drugaredd oedd gan yr Arglwydd. Cadarnhaodd Iesu’r hyn a ddywedodd yn y Swper Olaf wrth iddo edrych ar Pedr. Ni wnaeth y ffaith bod un arall o’r Deuddeg

wedi ei wadu y tro hwn ei rwystro rhag mynd ar ei ffordd i'r Groes. Cerddodd ymlaen i wynebu ei farnwyr ac i rodio'r llwybr i Golgotha. Amhosibl ydoedd iddo gyrraedd gardd yr Atgyfodiad ar y dydd cyntaf o'r wythnos heb iddo rodio'r ffordd hon. Yr un mor amhosibl yw i'w ddilynwyr brofi llawenydd y Pasg heb iddynt hwythau hefyd ddewis rhodio ffordd ei Groes.

**Gweddi:**
*O Arglwydd Iesu Grist, edrych arnom gyda'r llygaid a edrychodd ar Pedr,*
*fel y cawn ninnau, gyda Pedr, edifarhau,*
*a thrwy dy gariad gael maddeuant ac adferiad;*
*er mwyn dy drugaredd. Amen.*
*(Yn seiliedig ar Lancelot Andrewes, 1555-1626)*